**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**HSS-01-03(p.4)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 22 Ionawr 2003 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Teitl:** | Menter Gofal Llygaid Cymru. Gwasanaeth Sgrinio Llygaid ar gyfer Retinopathi Diabetig i Gymru Gyfan |

## Diben

Diben y papur hwn yw rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y cynnydd a wnaed wrth weithredu gwasanaeth sgrinio retinopathi diabetig i Gymru gyfan.

## Crynodeb

- Lansiwyd y rhaglen Sgrinio i Gymru gyfan yn Llanfair ym Muallt ym mis Gorffennaf.
- Dyrannwyd £2m yn 2002/2003 a £5m am y tro ar gyfer 2003/2004
- Bydd ansawdd y sgrinio’n cael ei sicrhau drwy ddefnyddio ffotograffiaeth retinol ddigidol yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol ac ar argymhelliad gweithgor arbenigol y Cynulliad.
- Bydd canolfan gydlynu genedlaethol yn cael ei sefydlu.
- Bydd pwyllgorau llywio lleol a chenedlaethol yn cael eu sefydlu. Bydd y pwyllgor cenedlaethol yn dyrannu arian i’r adrannau iechyd hynny sy’n cymryd rhan yn y rhaglen, gan gynnwys y rheini yn y lleoliadau gofal eilaidd.

## Cefndir

Yn dilyn y cyhoeddiad cyllideb a wnaed gan y Gweinidog dros Gyllid ym mis Rhagfyr 1999, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori gyda chynrychiolwyr o’r proffesiwn a mudiadau gwirfoddol ynghylch ehangu profion llygaid am ddim yng Nghymru. Ystyriodd y pwyllgor ganlyniad yr ymarfer hwn ym mis Mawrth 2000.

Daeth i’r casgliad mai’r ffordd fwyaf effeithiol o wella iechyd llygaid pobl Cymru fyddai llunio pecyn o

fesurau i gael diagnosis cynnar o glefyd y llygaid ymysg y bobl mwyaf diamddiffyn.

Cyfarfu gweithgor arbenigol i ystyried y ffordd orau i ddatblygu'r mesurau hyn. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno rhaglen sgrinio retinopathi diabetig i Gymru gyfan, yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU.

Argymhellodd y grwp y dylid sicrhau ansawdd y rhaglen hon gyda safonau cyffredin ledled Cymru, ac y dylid sefydlu Canolfan Gydlynu Genedlaethol.

**Meini prawf ar gyfer sgrinio ar gyfer retinopathi diabetig**

**Argymhellodd y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y dylai cynllun cenedlaethol fodloni'r meini prawf canlynol yn y pen draw:**

- **rhaglen flynyddol ar gyfer pawb â diabetes**
- **bydd sicrhau ansawdd yn cael ei gynnwys yn y gwasanaeth**
- **delweddau digidol fydd y dull ffafriedig**
- **bydd yn rhaid i'r rhaglen fod yn rhan o batrwm gofal y rheini â diabetes**

Dywedodd y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol mai ffotograffiaeth ddigidol yw'r dechneg sy'n cael ei ffafrio. Dylid ystyried biomicroscopeg annuniongyrchol, sef archwilio'r llygaid drwy'r gannwyll ledagored gan ddefnyddio microsgop dwbl wedi'i fowntio, fel trefniant dros dro. Bydd y trefniant hwn yn parhau am beth amser o ganlyniad i'r defnydd eang a wneir ohono ar hyn o bryd. Nid yw'r argymhelliad hwn yn cyfyngu ar leoliad neu gefndir proffesiynol y sgriniwr. Bydd yn rhaid i'r rhaglen fod yn ddigon hyblyg i gynnwys yr holl leoliadau cyfleus. Bydd angen cynnal egwyddorion tegwch, mynediad hawdd a sicrwydd ansawdd.

Y cynlluniau sy'n seiliedig ar ffotograffiaeth retinal ddigidol yw'r dewis sy'n cael ei ffafrio o hyd oherwydd llwyddiant hyn o ran sicrwydd ansawdd, yn ogystal â'r dull hawdd o drosglwyddo delweddau, eu storio a'u galw'n ôl. Hefyd ystyriodd y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y strwythur rheoli arfaethedig ac argymhellodd fod Canolfan Gydlynu Genedlaethol yn cael ei sefydlu;

- I weithredu polisi cenedlaethol mewn perthynas â'r rhaglen sgrinio ar gyfer retinopathi diabetig;
- I ddarparu cyngor amserol i Awdurdodau Iechyd;
- I sefydlu canolfan gyfeirio sicrhau ansawdd genedlaethol i baratoi adroddiad blynyddol a data cenedlaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a phartïon eraill â diddordeb.

**Y cynnydd o ran datblygu'r gwasanaeth**

Yn dilyn y cyhoeddiad a wnaed yn Llanfair ym Muallt ym mis Gorffennaf, dechreuodd swyddogion gynnal trafodaethau ag Ymddiriedolaeth GIG sy'n barod i ymgymryd â rheoli'r gwasanaeth ar sail Cymru gyfan. Rydym yn disgwyl y bydd y trafodaethau hyn yn dod i ben o fewn yr ychydig wythnosau nesaf, a bydd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn dod i rym ar ddechrau 2003.

Yna bydd pwyllgor llywio'n cael ei greu i ddatblygu'r gwasanaethau i gleifion ledled Cymru. O dan gyfarwyddiaeth glinigol yr Athro David Owens, bydd rhwydweithiau sy'n cynnwys cynlluniau lleol presennol yn cael eu datblygu a lle y bo'n briodol, bydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn gwasanaeth ar gyfer Cymru Gyfan ac yn mabwysiadu arfer gorau lle bynnag y bydd hynny.

Ein targed yw cael gwasanaeth Cymru gyfan i sgrinio'r cleifion cyntaf erbyn mis Mawrth 2003, a chyflwyno'r gwasanaeth ar draws gweddill Cymru erbyn mis Mawrth 2004.

Cyfrifoldeb y pwyllgor llywio fydd sicrhau y bydd yr arian a ddyrennir i'r rhaglen yn cael ei ddosbarthu i adrannau iechyd sy'n cyfrannu i'r gwasanaeth, gan gynnwys yn y lleoliadau gofal eilaidd. Bydd gofal mawr yn cael ei gymryd i sicrhau na chaiff y gwasanaethau eilaidd eu gorlethu gan y galw ychwanegol y gall y rhaglen sgrinio ei gynhyrchu.

Rydym ar hyn o bryd yn negodi â landlordiaid yn ardal Rhondda Cynon Taf ynghylch lleoli Canolfan Sgrinio Genedlaethol i Gymru. Bydd y safle arfaethedig yn cynnig digon o le i ddatblygu gwasanaeth ar sail Cymru gyfan, yn ogystal â digon o fannau diogel ar gyfer unedau symudol.

Dylai'r ganolfan hon fod yn hollol weithredol erbyn mis Mawrth 2003.

Bydd Sicrwydd Ansawdd yn cael ei gynnal drwy ddefnyddio ffotograffiaeth retinol ddigidol yn seiliedig ar argymhellion y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol. Yn y lle cyntaf bydd cyfeirio at y gwasanaethau gofal eilaidd yn seiliedig ar y canllawiau a ddefnyddir gan Awdurdod Iechyd Bro Taf.

Bydd cyfeirio cleifion i'r Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty yn gweithio yn ôl y cynllun isod:

- Cyfeiriadau brys: yn cael eu gweld o fewn mis i ddyddiad y cyfeirio
- Cyfeiriadau buan: yn cael eu gweld o fewn tri mis i ddyddiad y cyfeirio
- Cyfeiriadau arferol: yn cael eu gweld o fewn chwe mis i ddyddiad y cyfeirio

Gwneir darpariaeth ar gyfer y cleifion hynny y bydd unrhyw nam sy'n cael ei ganfod ar eu llygaid yn golygu bod eu golwg mewn perygl dybryd. Byddant yn cael eu cyfeirio'n uniongyrchol i'w hasesu gan feddyg llygaid yn y gwasanaethau gofal eilaidd. Yn yr achosion hyn, byddant fel rheol yn cael eu cyfeirio o fewn 24 awr fel y gall y meddyg llygaid benderfynu ar y driniaeth addas ar gyfer cadw'u golwg.

Unwaith y bydd y gwasanaeth sgrinio diabetig i Gymru gyfan wedi'i roi ar waith ac ar gael i bob claf ledled Cymru, bydd y protocolau cyfeirio yn cael eu mireinio ymhellach drwy gytundeb lleol, gan ystyried y cyfnodau cyfeirio a argymhellwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE).

Mae pwyslais y ddau brotocol cyfeirio ar ymyrryd yn effeithiol ac yn gyflym iawn pan fydd arwydd o unrhyw nam difrifol yn bygwth y llygaid. Byddwn yn sicrhau y bydd y gwasanaethau a ddarperir ledled Cymru yn bodloni safon gyson sy'n hollol ddealladwy.

**Goblygiadau Ariannol**

Neilltuwyd dyraniad dros dros o £5m ar gyfer ariannu Gwasanaeth i Gymru gyfan yn ystod 2003-2004. Ffigur dros dro yw hwn, ac mae'n agored i adolygiadau cyllidebol.

**Cydymffurfiaeth**

Mae'r pwerau i wneud y darpariaethau hyn i'w gweld yn adran 1, adran 2(1) ac adran 3(1) (f) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977. Trosglwyddwyd yr holl bwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'u dirprwyo i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â chydymffurfiaeth neu reoleidd-dra.

**Gweithredu pellach gan y Pwyllgor**

Papur yw hwn i'r Pwyllgor ei nodi, ac nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd.

**Jane Hutt**
**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt:** Gerry Lynch, Yr Is- Adran Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, ffôn 029 2082 3813